Cylchlythyr CCAUC W18/30HE: Atodiad B

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Mesurau cenedlaethol ar gyfer perfformiad addysg uwch

Tachwedd 2018

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

www.hefcw.ac.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd | This document is also available in English

Mesurau cenedlaethol ar gyfer perfformiad addysg uwch

A: Cynyddu ehangu mynediad a chynhwysiant

Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch (SAUau) a sefydliadau addysg bellach (SABau) yng Nghymru ac maent yn fesurau sector a sefydliad unigol oni bai y nodir yn wahanol.

1. Ehangu cyfranogiad

Nifer a chyfran yr holl fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru o bob oedran sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n byw yn

a) y ddau gwintel isaf
b) y cwintel isaf

yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014.

2. Cyfranogiad

Nifer a chyfran yr holl fyfyrwyr sy'n byw yn y DU o bob oedran sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sydd o ardaloedd cyfranogiad isel yn y DU.

3. Cadw

Cyfran y myfyrwyr israddedig llawn amser mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n bresennol mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl y flwyddyn mynediad, ar gyfer

a) myfyrwyr sy'n byw yn y DU;
b) myfyrwyr sy'n byw yn nau gwintel isaf MALlC

a hefyd, cyfran y myfyrwyr gradd gyntaf rhan amser mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl y flwyddyn mynediad, ar gyfer

c) myfyrwyr sy'n byw yn y DU;
d) myfyrwyr sy'n byw yn nau gwintel isaf MALlC.

4. Rhan amser

a) Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn SAUau a SABau Cymru sy'n rhan amser,
b) a hefyd y newid canran flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y myfyrwyr rhan amser hyn o gymharu a'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU (mesur sector)

5. Amrywiaeth y boblogaeth o fyfyrwyr

Dolen i'r data cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y cyhoeddwyd ar ein gwefan ni

B: Gwella profiad myfyrwyr

Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch (SAUau) a sefydliadau addysg bellach (SABau) yng Nghymru ac maent yn fesurau sector a sefydliad unigol oni bai y nodir yn wahanol.

6. Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr

Sgôr gyfartalog barhaus tair blynedd Cymru yng nghwestiwn 'boddhad cyffredinol' yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr o gymharu a'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU. [mesur sector, a chyfartaledd parhaus tair blynedd fesul sefydliad]

7. Cyfrwng Cymraeg

Nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n ymgymryd ag

a) o leiaf 5 credyd
b) o leiaf 40 credyd

o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, y flwyddyn.

8. Symudedd myfyrwyr

Nifer a chanran y myfyrwyr yn SAUau Cymru sy'n astudio ac yn cael profiadau gwaith a gwirfoddoli dramor, ar gyfer

a) yr holl fyfyrwyr
b) myfyrwyr sy'n byw yn nau gwintel isaf MALlC

9. Ansawdd

Canlyniadau Adolygiad Gwella Ansawdd QAA ar gyfer pob SAU a SAB yng Nghymru sy'n cael ei adolygu.

10. Cwynion OIA

Cyfanswm y cwynion (y gellir eu cyfiawnhau, y gellir eu cyfiawnhau'n rhannol ac wedi'u setlo) a wnaed yn erbyn sefydliadau Cymru i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) fel yr adroddir yn adroddiad blynyddol a datganiadau blynyddol yr OIA.

C: Cryfhau sgiliau, cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth

Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch (SAUau) a sefydliadau addysg bellach (SABau) yng Nghymru ac maent yn fesurau sector a sefydliad unigol oni bai y nodir yn wahanol.

11. Cyflogaeth

Cyfran y myfyrwyr yn gadael SAUau a SABau Cymru gyda chymwysterau israddedig oedd yn gyflogedig, yn astudio neu'r ddau o fewn 6 mis i adael o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU.
(O 2017/18 ymlaen, bydd hyn 15 mis ar ôl gadael.)

12. Cyflogaeth graddedigion

Cyfran y myfyrwyr yn gadael SAUau a SABau Cymru oedd yn gweithio, neu'n gweithio ac yn astudio, a oedd yn gweithio mewn rôl reoli/broffesiynol 6 mis ar ôl gadael.
(O 2017/18 ymlaen, bydd hyn 15 mis ar ôl gadael.)

13. Datblygiad proffesiynol parhaus

Cyfanswm y dyddiau dysgwyr a gyflwynwyd gan SAUau Cymru ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus, a gofnodwyd yn yr arolwg HE-BCI.

D: Ehangu arloesi ac ymgysylltu

Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch (SAUau) yng Nghymru ac maent yn fesurau sector a sefydliad unigol oni bai y nodir yn wahanol.

14. Cyfanswm incwm HE-BCI yn ôl FTE y Staff Academaidd

Cyfanswm yr incwm a gofnodwyd yn yr arolwg HE-BCI o ymchwil cydweithredol, ymgynghoriaeth, ymchwil contractau, datblygiad proffesiynol parhaus, gwasanaethau cysylltiedig ag offer a chyfleusterau, eiddo deallusol ac adfywio a datblygiad, wedi'i rannu yn ôl FTE staff academaidd.

15. Gweithgarwch sgil-fusnesau

Sgil-fusnesau newydd a sgil-fusnesau sydd dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf.

16. Gweithgarwch sefydlu (graddedig)

Busnesau newydd a busnesau sydd dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf.

17. Canlyniadau effaith REF

Dolen i ddata'r REF fel y cyhoeddwyd ar ein gwefan

E: Cynyddu ymchwil rhagorol yn rhyngwladol

Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch (SAUau) yng Nghymru ac maent yn fesurau sector a sefydliad unigol oni bai y nodir yn wahanol.

18. Staff Ymchwil

Nifer yr

a) holl ymchwilwyr
b) ymchwilwyr STEMM
c) ymchwilwyr heb fod yn STEMM

19. Myfyrwyr PGR
Cyfanswm yr holl fyfyrwyr PGR (FTE).

20. PhDs a ddyfarnwyd
Cyfanswm y PhDs a ddyfarnwyd.

21. Incwm ymchwil
Y newid canran blynyddol mewn incwm o
a) Ymchwil i gyd; a
b) Cynghorau Ymchwil
o gymharu â'r ffigur cymharol ar gyfer y DU ac eithrio 'triongl aur' Rhydychen, Caergrawnt a rhai sefydliadau yn Llundain)

22. Canlyniadau'r REF
Dolen i ddata'r REF fel y cyhoeddwyd ar ein gwefan

F: Mesurau eraill i gael eu monitro

23. Cyflwr ariannol
Dolen i ddata cyflwr ariannol a gyhoeddwyd ar ein gwefan

24. Stadau
Dolen i ddata'r Cofnod Rheoli Stadau ar ein gwefan

25. Cyflog uwch staff a bwlch cyflog y rhywiau
Dolen i dudalen cyflog staff ein gwefan

26. Data cydraddoldeb ac amrywiaeth staff
Dolen i dudalen ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth ein gwefan

Monitro'r UE/Rhyngwladol, i gynnwys:
Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch (SAUau) yng Nghymru ac maent yn fesurau sector a sefydliad unigol oni bai y nodir yn wahanol.

27. Myfyrwyr yr UE/tramor
Y newid canran blynyddol yn nifer y
a) myfyrwyr sy'n byw yn yr UE heb fod yn dod o'r DU
b) myfyrwyr tramor
sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru, a hefyd y newid canran blynyddol yn nifer y myfyrwyr hyn o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (ac eithrio Llundain a'r De Ddwyrain).

28. Staff yr UE/tramor
Nifer a chanran y staff academaidd yn sefydliadau addysg uwch Cymru sydd yn
a) wladolion yr UE a heb fod o'r DU

b) wladolion heb fod o'r UE

a hefyd, y newid canran blynyddol, a'r newid canran blynyddol o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU.

29. Addysg drawsgenedlaethol

Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n fyfyrwyr addysg trawsgenedlaethol yn sefydliadau addysg uwch Cymru.

Geirfa

SAU	Sefydliad Addysg Uwch	REF	Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil
SAB	Sefydliad Addysg Bellach	STEMM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth
HE-BCI	Addysg Uwch-Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymuned	PGR	Ymchwil Ôl-radd
FTE	Cyfwerth ag Amser Llawn	EMS/ EMR	Ystadegau/Cofnodion Rheoli Stadau